ATODIAD / ENCLOSURE
C

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD:** | **12 Mawrth 2015** |
| **TEITL:** | **Diweddariad ar gwestiynau'r Ombwdsmon** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Awena Walkden, Cyfreithwraig Llywodraethiant Corfforaethol** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Safonau ar gwestiynau'r Ombwdsmon (26.22.2014)** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Awena Walkden, Cyfreithwraig Llywodraethiant Corfforaethol ( Est 2563)** |

1. Ar 26 Tachwedd 2014 daeth yr Ombwdsmon i Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer cyfarfod o Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru (FfPSGC) lle cyflwynwyd iddo restr o gwestiynau gan aelodau'r Fforwm. Pwyllgor Safonau Ynys Môn oedd wedi ei wahodd i fynychu gan mai ein tro ni oedd lletya'r digwyddiad a'r teimlad oedd y byddai'n gyfle da i'r FfPSGC gyfarfod â'r Ombwdsmon newydd a chael clywed am ei fentrau newydd.

2. Mae copi o'r cwestiynau a ofynnwyd i'r Ombwdsmon ynghyd â'i atebion i'w weld ynghlwm yn **Atodiad 1**.

3. Eglurodd yr Ombwdsmon i'r Fforwm ei fod, yn ystod ei dymor byr fel Ombwdsmon Cymru, wedi llunio rhai mentrau newydd ynglŷn â'r broses o ran cwynion sy'n ymwneud â'r Côd Ymddygiad. Roedd y mentrau mwyaf arwyddocaol fel a ganlyn :-

   i. Mae'n dymuno ychwanegu trydydd prawf i'w brawf dau gam ar gyfer penderfynu a ddylid ymchwilio i gŵyn sy'n ymwneud â'r Côd Ymddygiad, sef gofyn "A fyddai ymchwilio i'r gŵyn hon o fudd i'r cyhoedd?"

   ii. Mae'n edrych ar y posibilrwydd o ymestyn y defnydd a wneir o'r protocol datrysiad lleol i Gynghorau Cymuned ond y mae hefyd yn gwybod na fydd hyn efallai yn opsiwn poblogaidd gyda Swyddogion Monitro a hynny oherwydd eu pwysau gwaith trwm.

   iii. Bydd yn cyflwyno cyfarwyddyd newydd ar y Côd Ymddygiad o ganlyniad i ddyfarniad Heesom ac yn ychwanegol at hyn, bydd yn dileu'r cyfeiriad at baragraff 10.2(b) o'r Côd Ymddygiad.

   Y brif neges gan yr Ombwdsmon yn ystod y cyfarfod o'r Fforwm oedd ei fod angen treulio llai o amser yn ymchwilio i gwynion blinderus a wneir gan y cyhoedd a chan Gynghorwyr yn erbyn y naill a'r llall oherwydd nad yw'r cwynion hyn (a'r ymchwiliadau iddynt) yn debygol o fod er budd y cyhoedd. Fe ddylai cyflwyno'r Prawf Budd y Cyhoedd fod o gymorth o ran lleihau'r nifer o gwynion blinderus a wneir. Mae cyllideb yr Ombwdsmon yn tynhau a chan fod yr Ombwdsmon hefyd yn ymchwilio i achosion

“byw neu farw” yn ymwneud â’r GIG, mae o’r farn y byddai o fwy o fudd i’r cyhoedd petai’n rhoi mwy o sylw i’r hawliadau hyn.

Mae Swyddfa’r Ombwdsmon wedi cynhyrchu dogfen sy’n nodi’r broses ymchwilio y maent yn ei gilyn (copi ynghlwm – **Atodiad 2**).

# ATODIAD / APPENDIX 1

## Cwestiynau ac Atebion gan yr Ombwdsmon

| Cwestiwn | |
|---|---|
| 1 | Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn caniatáu ar gyfer ffurfio Pwyllgorau Safonau rhanbarthol. Pan fydd y rheoliadau yn eu lle, sut mae'r Ombwdsmon yn awgrymu y dylid ymarfer y pŵer hwn ymysg Awdurdodau Gogledd Cymru. Beth yw'r amserlen gyfredol ar gyfer gweithredu'r pŵer hwn?<br>**Michael Wilson (Cadeirydd) – Ynys Môn**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Gweithiais ar y Comisiwn Williams ac rwy'n gefnogwr cryf o gydweithio yn y sector cyhoeddus. Rwy'n cefnogi ffurfio'r Pwyllgorau Safonau Rhanbarthol ac rwy'n credu mai dyna'r ffordd ymlaen. Rwy'n deall bod Llywodraeth Cymru yn edrych ar gyflwyno rheoliadau yn y flwyddyn nesaf ond nid oes gennyf amserlen ar gyfer hynny. |
| 2 | Pam fod achosion a dderbynnir gan yr Ombwdsmon yn cymryd cymaint o amser i'w hymchwilio?<br><br>Diau fod gan aelod sydd wedi ei gyhuddo o gamymddwyn hawl i ddisgwyl y bydd yr honiad(au) yn cael sylw ac a gwneir penderfyniad mor fuan ag sy'n bosibl?<br><br>Mae yna hefyd ddiddordeb cyhoeddus i etholwyr gael gwybod mor fuan ag sy'n bosibl p'un a yw eu cynrychiolwr a etholwyd yn ddemocrataidd wedi torri'r côd ymddygiad.<br>**John Roberts (Is-Gadeirydd) - Conwy**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Os oes problem gyda'r amserlen ar gyfer delio gyda chwynion byddaf yn edrych ar hynny. Mae yna graff yn Adroddiad Williams o'r enw "y graff gwae" sy'n dweud bod y galw am wasanaethau cyhoeddus yn cynyddu tra bod y gyllideb yn gostwng.<br><br>Ni fu cynnydd enfawr yn nifer y cwynion Côd Ymddygiad a dderbyniwyd. Mewn gwirionedd mae'r nifer wedi gostwng. Fodd bynnag, mae hynny'n newid yn ystod blynyddoedd etholiad pan fo niferoedd y cwynion yn codi. Y broblem sydd gennym yw gyda chwynion blinderus. Mae angen i ni sicrhau nad ymchwilir i gwynion blinderus a'u bod yn cael eu taflu allan cyn gynted ag y bo modd.<br><br>Rydym yn cael ein cyllido gan arian y trethdalwyr ac rydym hefyd yn ymchwilio i fethiannau bywyd neu farwolaeth yn y GIG ac rydym yn credu bod gan y cyhoedd mwy o ddiddordeb yn yr achosion hynny na chwynion blinderus ynglŷn â materion Côd Ymddygiad. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | Mae ystadegau o ran yr amserlenni ar gyfer delio gyda chwynion codau ymddygiad fel a ganlyn:-<br><br>**1.** Yn 81% o'r achosion rydym yn penderfynu a ddylid ymchwilio ai peidio cyn pen 4 wythnos.<br>**2.** Ymchwilir i 85% o'r cwynion sy'n symud ymlaen i'r cam ymchwilio cyn pen 9 mis.<br>**3.** Dim ond 15% sy'n cymryd mwy na 9 mis.<br><br>Fodd bynnag, os bydd modd i ni wneud gwelliannau pellach o ran yr amser a gymer i ddelio gyda chwynion, byddwn yn gwneud hynny. Ni allwn wneud dim i gyflymu'r amserlenni sydd gan Banel Dyfarnu Cymru na rhai'r Pwyllgorau Safonau oherwydd eu bod y tu allan i'n rheolaeth. Rwy'n dymuno cyflwyno trydydd prawf i'w ychwanegu at fy mhrawf dau gam sef "a oes budd i'r cyhoedd o ymchwilio i'r gŵyn?" Mae'n gwneud synnwyr y dylid rhoi o'r neilltu unrhyw fater nad yw er budd y cyhoedd. Nid wyf yn dweud ein bod am wneud llai o waith, rydym am wneud mwy, ond ni fedrwn wastraffu arian trethdalwyr yn ymchwilio i gwynion blinderus. |
| 3 | Mewn llythyr i'r Ombwdsmon gan Gadeirydd Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru (FfPSGC) gofynnwyd:-<br><br>(i) A fyddai'r Ombwdsmon yn barod i ddarparu cyfarwyddyd ar sancsiynau wedi'u teilwrio'n benodol i anghenion a phwerau pwyllgorau safonau yn hytrach na cheisio cymhwyso rhannau perthnasol o gyfarwyddyd y Panel Dyfarnu; a<br>(ii) Ystyriwyd bod yr argraffiad cyntaf o "Lyfr Achos Côd Ymddygiad yr Ombwdsmon" yn ddefnyddiol iawn. Fodd bynnag, mae FfPSGC yn ystyried y byddai'n fwy defnyddiol byth pe gellid cyhoeddi crynodebau o achosion unwaith y byddant wedi dod i ben, efallai ar wefan yr Ombwdsmon? Gofynnwyd a oedd yn bosibl gwneud hyn ai peidio neu fel arall, a allai crynodebau o'r achosion gael eu cyhoeddi'n chwarterol?<br><br>Cafwyd ymatebion negyddol i bob cais gan y cyn Ombwdsmon. A yw'r Ombwdsmon presennol yn barod i ail-drafod y materion hyn ac os nad ydyw, a fedr ehangu ar y rhesymeg y tu cefn i benderfyniad ei ragflaenydd.<br>**Ian Trigger (Cadeirydd) – Sir Ddinbych**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Nid oes gennym yr adnoddau i gyhoeddi llyfr achosion misol ond efallai y bydd modd i ni gyhoeddi gwybodaeth am achosion ar y wefan cyn gynted ag y maent yn fyw.<br><br>Mewn perthynas â'r canllawiau ynghylch cosbau, nid wyf wedi trafod y mater gyda fy rhagflaenydd ond nid wyf wedi fy narbwyllo bod problem gyda chysondeb cosbau gan Bwyllgorau Safonau ar draws Cymru. Fodd bynnag, mae'n rhywbeth y gallwn ei ystyried os ydych yn credu y byddai'n ddefnyddiol. |
| 4 | Yng Nghyfarwyddyd yr Ombwdsmon ar Brotocolau Datrysiad Lleol (tudalen 6 y cyfarwyddyd i'r côd) crybwyllir bod disgwyl i Gynghorau Sir weithredu gweithdrefnau datrysiad lleol i roi sylw i gwynion lefel isel a bod: **"y** |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | **peirianwaith hwn yn cael ei fabwysiadu gan y prif gynghorau i ddechrau ond rwyf yn gefnogol i ymestyn hyn i gynnwys Cynghorau Cymuned yn y man".**<br><br>Yn ôl hyn, rhagwelir y bydd disgwyl i Gynghorau Sir weithredu protocolau datrysiad lleol mewn anghydfodau mewn cynghorau cymuned? Fel arall, a yw'r Ombwdsmon yn rhagweld y dylai protocolau o'r fath gael eu mabwysiadu gan y Cynghorau Cymuned eu hunain a'u gweithredu gan y cynghorau hynny? Pe na bai'r trefniadau hyn a ragwelir yn cael eu "ehangu" a yw'r Ombwdsmon yn credu y dylai Pwyllgorau Safonau gymryd rôl weithredol o ran datrys mân-gwynion gyda Chynghorau Tref a Chymuned cyn iddynt gael eu huwchgyfeirio i'r Ombwdsmon?<br>**Edward Hughes (Cadeirydd) – Sir y Fflint**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Ar hyn o bryd mae 50% o'r cwynion Côd Ymddygiad yn dod o Gynghorau Cymuned.<br><br>Mewn cynhadledd a gynhaliwyd gan Un Llais Cymru yn ddiweddar, roedd cynrychiolwyr y Cynghorau Cymuned yn awyddus, fe ymddengys i ymestyn y Protocol Datrysiadau Lleol i Gynghorau Cymuned. Fodd bynnag, ymddengys bod Swyddogion Monitro yn llai awyddus i wneud hynny.<br><br>*Cadarnhaodd y Swyddog Monitro ar gyfer Cyngor Gwynedd nad yw wedi ei ddarbwyllo bod capasiti i ddelio gyda Phrotocolau Datrysiadau Lleol y Cynghorau Cymuned, un ai o fewn y Cyngor neu yn y Cynghorau Cymuned eu hunain, a hynny oherwydd y cyfyngiadau amser ar y Clerc. Fodd bynnag, gall cyflwyno prawf budd cyhoeddus gynorthwyo i ostwng nifer y cwynion gan Gynghorau Cymuned.* |
| 5 | Ceir ar ddeall y bydd yr Ombwdsmon yn cyhoeddi cyfarwyddyd newydd ar y côd ymddygiad (yn arbennig yng ngoleuni Calver). All yr Ombwdsmon roi unrhyw syniad ynglŷn â pha bryd y bydd y cyfarwyddyd newydd hwn ar gael a hefyd ddarparu ychydig o wybodaeth ynglŷn â'r amserlen ar gyfer ymgynghori ar unrhyw ddrafft?<br>**David Vaughan (Cadeirydd) – Parc Cenedlaethol Eryri**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Mae'r Canllawiau ar y Côd Ymddygiad wedi eu diwygio yn wyneb Calver ond bydd angen edrych arnynt unwaith eto o ganlyniad i'r dyfarniad Heesom, a'r ffaith ein bod yn dymuno cyhoeddi prawf budd cyhoeddus newydd. |
| 6 | Yn ein Polisi Chwythu'r Chwiban, rydym yn cyfeirio at yr Ombwdsmon fel rheolydd y gall gweithiwr siarad ag ef/hi ynglŷn â'u pryderon. A oes gan yr Ombwdsmon rôl yma? Os felly, pa fath o gwynion chwythu'r chwiban ddylai fod yn rhan o gylch gorchwyl yr Ombwdsmon? A ddylid dileu hyn o'n polisi?<br>**Michael Wilson (Cadeirydd) – Ynys Môn**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Nid wyf yn rheoleiddiwr ond wrth gwrs rwy'n fodlon derbyn cwynion chwythu'r chwiban sy'n ymwneud â'r Côd Ymddygiad a thorri'r côd. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| 7 | Pa ganran o gwynion a dderbynnir gan yr Ombwdsmon a ymchwilir iddynt gan yr Ombwdsmon ac a gyfeirir gan yr Ombwdsmon i'r Pwyllgor Safonau / Panel Dyfarnu, sy'n gwynion gan Gynghorau Cymuned yn hytrach nag awdurdodau unedol? Y pryder yw y bydd y cyhoedd yn gweld y gair "Cynghorydd" gan fethu â gwneud y gwahaniaeth rhwng Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Cymuned.<br>**Robert Dewey (Cadeirydd) – Sir y Fflint**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Mae 50% o'r cwynion a gawn yn dod o Gynghorau cymuned; ymchwilir i 15% o'r rheini ac mae 5% yn cael eu cyfeirio i'r Pwyllgor Safonau.<br><br>Mewn perthynas â'r 50% o gwynion geir yn erbyn Cynghorwyr Sir ymchwilir i 19% o'r rheini ac mae 1% yn cael eu cyfeirio i'r Pwyllgor Safonau. |
| 8 | Mewn achos lle mae'r Ombwdsmon yn cyfeirio mater i Bwyllgor Safonau am wrandawiad a phwnc y cyfeiriad yn golygu bod gwrthdaro ddiddordeb i Adain Gyfreithiol y Cyngor ei hun, beth (os o gwbl) yw barn yr Ombwdsmon ynglŷn â phwy ddylai ddarparu'r cyngor cyfreithiol i'r Pwyllgor Safonau?<br>**Ian Trigger (Cadeirydd) – Sir Ddinbych**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Rwy'n credu y dylai awdurdodau cyfagos gynorthwyo.<br><br>Derbyniwyd o fewn y Pwyllgor y bydd y gwasanaethau cyfreithiol yn cynorthwyo ei gilydd os oes modd ond gallai hynny fod yn anodd ar faterion penodol oherwydd graff gwae pob Cyngor unigol. |
| 9 | Sut mae'r Ombwdsmon yn datblygu ei rôl mewn perthynas â'r côd ymddygiad? A oes ganddo unrhyw gynlluniau newydd mewn golwg?<br>**John Roberts (Is-Gadeirydd) – Conwy**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau newydd mewn golwg ond rwy'n dymuno ychwanegu trydydd prawf budd cyhoeddus a byddaf yn darparu canllawiau syml ar ddiddordebau personol a rhagfarnus. |
| 10 | Ysgrifennodd FfPSGC i Un Llais Cymru yn gynharach y flwyddyn hon yn gofyn am gefnogaeth i Gynghorau Cymuned allu datblygu cynnwys moesegol eu gwefannau pan ddaw hyn yn anghenraid statudol (gweler y llythyr ynghlwm). Nid ydym wedi cael unrhyw ymateb hyd yn hyn. Pa gymorth fydd yr Ombwdsmon yn ei ddarparu i Gynghorau Cymuned ar y mater hwn?<br>**Edward Hughes (Cadeirydd) – Sir y Fflint**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Hoffwn weld copi o unrhyw ymateb a gewch gan Un Llais Cymru ar hyn gan y byddai gennyf ddiddordeb yn eu sylwadau. Yn yr un modd, byddwn yn hapus i gael unrhyw sylwadau a fo gennych ynghylch pa fath o ganllawiau y byddech yn dymuno eu cael, a chawn weld a yw'n rhywbeth y byddwn yn medru rhoi cymorth gydag ef. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| 11 | A fyddwch chi fel yr Ombwdsmon, yn ystyried trosglwyddo ychwaneg o achosion o dorri'r Côd Ymddygiad i'r Pwyllgorau Safonau roddi sylw iddynt ar lefel leol?<br>**Howie Roberts (Cadeirydd) – Conwy**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Byddwn. Byddwn yn ystyried trosglwyddo mwy o achosion o dorri'r Côd Ymddygiad i Bwyllgorau Safonau ac, yn ystod cyfarfod yr oeddwn ynddo yn Abertawe yr wythnos diwethaf, roedd yna ddisgwyliad y byddai hynny'n digwydd. Fodd bynnag roedd yr ymateb yn wael gyda dim ond 4 achos yn destun ymchwiliad ar lefel leol hyd at Ebrill eleni. Ymddengys mai'r broblem yw nad yw Pwyllgorau Safonau ag awydd, fe ymddengys, i gynnal gwrandawiadau lleol. Nodir fodd bynnag fod y Pwyllgorau Safonau sy'n bresennol yn hapus i ddelio â mwy o faterion ar lefel leol a byddaf yn parhau i gyfeirio achosion lle mae'n briodol. |
| 12 | A oes gan yr Ombwdsmon unrhyw fwriad i egluro paragraff 10 (2) (b) yn y Côd Ymddygiad i Aelodau y of the Members' Code beyond that contained in the Guidance issued in September 2012 (tudalen 27). Yn y Canllawiau hynny, nodwyd y byddai'r Ombwdsmon ar y pryd yn adolygu'r Canllawiau yn wyneb unrhyw benderfyniadau a chyfraith achos yn y dyfodol ar effaith y ddarpariaeth hon.<br>**David Vaughan (Cadeirydd) – Parc Cenedlaethol Eryri**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd yn tynnu paragraff 10(2)(b) o'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau pan fydd yn ailedrych ar Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth)(Cymru) 2013. |
| 13 | Fel arfer, gwneir cwyn yn erbyn aelod fel aelod o awdurdod penodol. O ganlyniad, byddai unrhyw waharddiad yn atal yr aelod hwnnw rhag gweithredu fel aelod o'r awdurdod hwnnw'n unig. Yn aml fodd bynnag, bydd yr aelod hefyd yn aelod o awdurdod perthnasol arall (e.e. cynghorydd sir sydd hefyd yn gynghorydd cymuned). Gall hyn arwain at sefyllfa lle mae aelod yn cael ei wahardd am ymddygiad a ystyrir yn annerbyniol ar gyfer aelod o unrhyw awdurdod (e.e. ymddygiad sy'n dwyn anfri ar y swydd) ond mae ef/hi yn rhydd i barhau i weithredu fel aelod o awdurdod arall yn y cyfamser.<br>**Robert Dewey (Cadeirydd) – Sir y Fflint.**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Mae unrhyw waharddiad yn rhwystro Cynghorwyr rhag gweithredu yn yr awdurdod y gwaharddwyd nhw ohono, ond nid yw fel arfer yn gwahardd aelodau rhag gwasanaethu ar unrhyw Gyngor Cymuned y maent wedi eu penodi iddynt ac eithrio lle mae'r honiadau yn ddigon difrifol - yn y fath achosion mae modd ymestyn y gwaharddiad i Bwyllgorau ac awdurdodau eraill fel Cynghorau Cymuned. |
| 14 | Ydych chi'n meddwl bod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn syniad da?<br>**Howie Roberts (Cadeirydd)**<br><br>**OMBWDSMON:-** |



DRAFT

| | |
|---|---|
| | Ydwyf.  Rwy'n credu bod y Fforwm yn syniad da iawn oherwydd ei fod yn annog rhannu arbenigedd ac yn darparu cysondeb ar draws Gogledd Cymru. |

DRAFT

# ATODIAD / APPENDIX 2

# Trefn Gwyno'r Cod Ymddygiad (Fersiwn 11)

**Cynnwys**


| | | |
|---|---|---|
| 0.0 | Egwyddorion | 2 |
| 1.0 | Workpro | 3 |
| 2.0 | Asesu | 4 |
| 3.0 | Yr ymchwiliad | 5 |
| 4.0 | Dirwyn yr ymchwiliad i ben | 7 |
| 5.0 | Herio penderfyniadau | 8 |
| 6.0 | Cyhoeddi adroddiadau | 9 |

## Egwyddorion

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW) wedi ymrwymo i gynnig gwasanaeth o safon uchel i gwsmeriaid ac i asesu, a, phan fo hynny'n briodol, ymchwilio i gwynion bod aelodau wedi ymddwyn yn groes i ddarpariaethau Cod Ymddygiad eu hawdurdod. Mae bod yn destun cwyn yn gallu bod yn straen i aelodau. Felly mae'n bwysig bod y penderfyniad i ymchwilio i gŵyn ai peidio yn cael ei wneud a'i gyfleu mor fuan â phosibl.

Byddwn yn cydymffurfio â'r dyletswyddau a osodir arnom gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Erthygl 6 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) ac Egwyddorion FREDA[1].

Rhaid bod yn arbennig o ofalus wrth ymateb i bobl fregus ac mae angen i ni fod yn sensitif wrth gyfathrebu â hwy a gwneud hynny mewn ffordd sy'n briodol i'w hanghenion. Mae enghreifftiau o gamau a gymerwyd gennym i gynorthwyo pobl i ddelio â ni yn cynnwys deunydd Hawdd ei Ddarllen, trawsgrifio sgyrsiau, ymweliadau wyneb yn wyneb, Braille, cyfeirio achwynwyr at eiriolwyr a darparu deunydd ar CD neu dâp.
Mae'r Ombwdsmon wedi annog awdurdodau lleol ledled Cymru i weithredu trefniadau datrys yn lleol er mwyn delio â chwynion 'lefel isel' a wneir gan aelod yn erbyn cyd-aelod. Fel arfer, sail y cwynion yw methiant honedig i ddangos parch ac ystyriaeth i eraill yn unol â gofynion paragraff 4(b) y Cod neu'r ddyletswydd i beidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn aelodau eraill dan baragraff 6(1)(d). Dylid cau cwynion o'r fath yng ngham 2 a'u cyfeirio'n ôl at Swyddog Monitro'r Cyngor ar gyfer eu hystyried dan y broses hon.

Mae'r penderfyniad i ymchwilio i gŵyn yn un sy'n galw am ystyriaeth ofalus. Mae gan ymchwiliadau oblygiadau sylweddol posibl i'r aelod. Serch hynny, mae angen i ni fod yn ymwybodol o'n swyddogaeth o ran cryfhau hyder mewn llywodraeth leol yng Nghymru drwy hyrwyddo safonau mewn bywyd cyhoeddus.
Wrth benderfynu a ddylid ymchwilio i gŵyn yn ymwneud â thorri'r Cod, mae'r Ombwdsmon yn rhoi prawf dau gam ar waith:

(i) I ddechrau, bydd yn mynd ati i sefydlu a oes tystiolaeth fod y cod wedi cael ei dorri mewn gwirionedd.

(ii) Yr ail brawf yw a fyddai'r toriad honedig yn debygol o arwain at roi cosb i'r aelod.[2] Wrth arfer ei ddisgresiwn, mae'r Ombwdsmon yn ystyried canlyniadau achosion blaenorol sydd wedi cael eu hystyried gan Bwyllgorau Safonau a Phaneli Dyfarnu ledled Cymru ac yn dod i benderfyniad ar sail hynny.

[1] FREDA = Tegwch; Parch; Cydraddoldeb; Urddas; Annibyniaeth
[2] Mae'r Ombwdsmon yn ystyried cosb fel ceryddu, atal neu wahardd yr aelod

Wrth wneud y penderfyniad hwnnw, dylai'r ymchwiliwr[3] seilio'r penderfyniad ar y wybodaeth sydd ar gael. Rhaid i'r gŵyn gael ei hategu â thystiolaeth uniongyrchol, yn hytrach na honiadau.

Lefel y prawf sydd ei angen yng nghyswllt achos o dorri'r Cod yw yr hyn sy'n debygol (*balance of probability*). Mae'n bwysig bod unrhyw ymchwiliad yn gymesur â'r achos o dorri'r Cod a honnir.

Mae llawer o gwynion a ddaw i law â chymhelliant gwleidyddol neu'n flinderus. Er bod angen bod yn ymwybodol o hyn, rhaid gwneud y penderfyniad i ymchwilio ai peidio ar sail cryfderau'r dystiolaeth a gyflwynir a thrwy weithredu'r prawf dau gam.

Gwneir ein penderfyniadau'n agored ac yn dryloyw. Bydd y rhesymau dros benderfynu peidio ag ymchwilio'n cael eu cyfleu mewn ffordd sy'n cwrdd â gofynion penodol y derbynnydd, a'u datgelu i'r rheiny sy'n ofynnol i ni eu hysbysu. Mae penderfyniadau a wneir dan awdurdod dirprwyedig yn ddarostyngedig i adolygiad gan y Rheolwr Adolygu neu'r Ombwdsmon.

Os, wrth asesu neu yn ystod ymchwiliad, y gwelir nad yw ail gymal y prawf dau gam wedi'i fodloni, byddwn yn gofyn i'r Swyddog Monitro perthnasol a yw yn dymuno ymchwilio i'r mater (neu ymchwilio ymhellach i'r mater) ar lefel leol (gweler paragraff 2.3 ar gyfer y broses asesu a pharagraff 3.6 ar gyfer y broses i'w dilyn yn ystod ymchwiliad).

Ar bob adeg, dylem osgoi rhagfarn a dylem hefyd fod yn ymwybodol o'r angen i osgoi rhoi'r argraff o ragfarn. Y broses rydym yn ei defnyddio yw casglu'r holl dystiolaeth sydd ar gael, mewn modd sy'n gymesur â'r toriad dan sylw, a gwneud penderfyniadau ar sail y dystiolaeth a gasglwyd.

Mae'r Ombwdsmon wedi darparu canllawiau statudol ar y Cod Ymddygiad[4] a bydd angen ystyried y rhain wrth wneud penderfyniad.

## 1. Workpro

1.1. Workpro yw'r modd y mae cwynion yn cael eu cofnodi a chynnydd y gŵyn a fonitrwyd ac a reolwyd.
Mae pedwar cam penodol yn berthnasol i gwynion ynghylch y Cod:

Cam 1 – Ymholiad
Cam 2 – Asesu

[3] Gydol y drefn hon mae'r term ymchwiliwr yn cyfeirio at Uwch Swyddogion Ymchwilio a Swyddogion Ymchwilio.
[4] "Y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru - Canllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru" (Ebrill 2010, diwygiwyd ym Medi 2012)

Cam 3 – Ymchwilio
Cam 4 – Adroddiad

1.2. Rhaid cofnodi pob cam a gymerir a chadw'r holl ddogfennau ysgrifenedig a gaiff eu paratoi yn ystod y gwaith o asesu ac ymchwilio i gŵyn yn y cofnod cwynion ar Workpro.

1.3. Ar bob cam o'r drefn hon, mae "ffeil" yn cyfeirio at y ffeil bapur ac mae "cofnod" yn cyfeirio at eitemau a gofnodwyd ar Workpro.

1.4. Mae nifer o dempledi ar gael ar Workpro. Er bod y rhain yn gallu arbed amser ac ymdrech, os ydych yn eu defnyddio, rhaid gofalu bod y ddogfen derfynol yn briodol i amgylchiadau'r achos.

## 2. Asesu

2.1. Pan gaiff y gŵyn ei derbyn gan y Tîm Cyngor ar Gwynion (CAT), hysbysir y canlynol:

(a) Y Swyddog Monitro
(b) Clerc y Cyngor Cymuned, os yn briodol
(c) Yr aelod sy'n cael ei gyhuddo
(d) Yr achwynydd

2.2. Bydd yr ymchwiliwr yn asesu'r wybodaeth yn y gŵyn yn erbyn y prawf dau gam. Os na fydd yn bodloni'r cam cyntaf, bydd yr ymchwiliwr yn gwrthod y gŵyn ac yn hysbysu'r achwynydd yn ysgrifenedig a thrwy gyfrwng y dull cyfathrebu o'u dewis (os yn wahanol). Bydd y llythyr hwnnw yn nodi'r rhesymau dros wrthod y gŵyn yn llawn ac anfonir copïau at y bobl hynny a nodwyd ym mharagraff 2.1(a) i (c)

2.3. Pan fo'r penderfyniad i ymchwilio, neu'r gŵyn ei hun, yn debygol o ddenu proffil cyhoeddus uchel, rhaid cyfeirio'r ffeil at sylw'r Rheolwr Ymchwiliadau (IM).

2.4. Ar adegau, efallai y bydd y wybodaeth yn y ffeil yn awgrymu bod y gŵyn yn deilwng ond bod yr achwynydd wedi methu â darparu tystiolaeth uniongyrchol am y mater sy'n destun y gŵyn neu nid yw wedi enwi tystion i'r digwyddiad sy'n destun y gŵyn. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylid anfon llythyr "yn bwriadu" at yr achwynydd yn rhoi cyfle iddo ddarparu gwybodaeth bellach. Dylai'r llythyr hwn egluro barn yr ymchwiliwr ac egluro pam na lwyddwyd i basio cymal cyntaf y prawf dau gam. Dylid caniatáu deg diwrnod gwaith ar gyfer ateb. Os na dderbynnir ateb dylid gwrthod y gŵyn (gweler paragraff 2.2). Os derbynnir ateb, mae angen i'r ymchwiliwr ailasesu'r gŵyn a phenderfynu os:-

(a) Y dylid ei gwrthod; ac, os felly, dylid dilyn paragraff 2.2; neu
(b) Y dylid ymchwilio iddi; ac, os felly, dylid dilyn paragraff 2.4.

Os daw’r ymchwiliwr i’r casgliad bod cam cyntaf y prawf dau gam wedi cael ei fodloni, ond na fodlonwyd yr ail gam, bydd yr ymchwiliwr yn cyfeirio’r ffeil at y Cyfarwyddwr Ymchwiliadau (DOI) drwy ei Reolwr Ymchwiliadau. Os bydd y DOI yn cytuno â’r penderfyniad bydd yr ymchwiliwr yn ysgrifennu at y Swyddog Monitro perthnasol i’w hysbysu ein bod yn bwriadu peidio ag ymchwilio i'r gŵyn gan ofyn iddynt gadarnhau a ydynt yn credu bod ymchwiliad lleol yn briodol (gan ganiatáu deg diwrnod gwaith i ymateb). Os na dderbynnir unrhyw ateb yn ystod y cyfnod hwnnw, gellir cau'r ffeil. Os bydd y Swyddog Monitro yn gofyn am fwy o amser i ymateb, yna gall yr ymchwiliwr gytuno i estyniad rhesymol. Anfonir copi o’r llythyr at yr achwynydd ac at yr aelod sy’n destun y gŵyn.[5]

Pan fydd y Swyddog Monitro yn cytuno nad yw'r gŵyn yn deilwng o ymchwiliad, nid ymchwilir i’r gŵyn a hysbysir y partïon yn unol â hynny.

Pan fydd y Swyddog Monitro yn nodi bod ymchwiliad lleol yn briodol, byddwn yn cychwyn ymchwiliad ac yn cyfeirio’r mater ar unwaith at y Swyddog Monitro dan adran 70(4) Deddf Llywodraeth Leol 2000.[6]

2.5. Os, ar ôl asesu’r gŵyn, bydd yr ymchwiliwr yn dod i'r casgliad y cafwyd llwyddiant yng nghyswllt y prawf dau gam, dylai'r ymchwiliwr baratoi nodyn asesu yn nodi'r rhesymau dros y penderfyniad a pha rai o ddarpariaethau'r Cod sydd dan sylw. Pan fydd yr achwynydd wedi cyhuddo'r aelod o dorri mwy nag un o baragraffau'r Cod, dylid cynnwys gwerthusiad o bob toriad posibl yn y nodyn asesu. Os bydd yr ymchwiliwr wedi nodi rhannau o’r cod a allai o bosibl fod wedi cael eu torri ond na nodwyd hwy gan yr achwynydd, dylid cyfeirio at y rhain hefyd yn y nodyn asesu.

2.6. Rhaid i’r penderfyniad i gychwyn ymchwiliad gael sêl bendith yr Ombwdsmon (neu, yn ei absenoldeb, y DOI).

## 3. Yr ymchwiliad

3.1. Ar ôl gwneud y penderfyniad i ymchwilio i'r gŵyn, gall y Rheolwr Ymchwiliadau (mewn cydweithrediad â'r Cyfarwyddwr Ymchwiliadau mewn achosion cymhleth neu achosion proffil uchel) ail-ddyrannu'r ffeil i ymchwiliwr arall. Bydd yr ymchwiliwr yn nodi cwmpas yr ymchwiliad, pa dystion i geisio tystiolaeth ganddynt, a pha dystiolaeth arall i’w chasglu, ac yn nodi hyn ar y ffeil.

3.2. Ar ôl cytuno ar gwmpas yr ymchwiliad, cysylltir â’r rhai a nodwyd ym mharagraff 2.1 er mwyn eu hysbysu am yr ymchwiliad. Rhoddir gwybod i’r aelod a gyhuddir nad yw sylwadau’n ofynnol ar y cam hwn. Gofynnir i’r Swyddog Monitro a Chlerc y Cyngor Cymuned (os yn briodol) am wybodaeth berthnasol.

---

[5] Hysbysir y naill barti a’r llall na fydd yn briodol i gysylltu â’r Swyddog Monitro ynghylch y mater bryd hynny.

[6] Mae Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaeth Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001/2281 yn nodi sut y dylai Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau ymdrin â'r mater.

3.3. Mae sawl ffordd o gael tystiolaeth ysgrifenedig am ddigwyddiadau gan dystion, er enghraifft:-

(a) Cyfweliadau wyneb-yn-wyneb;
(b) Cyfweliadau dros y ffôn;
(c) Cwestiynu ysgrifenedig.

Bydd yr ymchwiliwr yn nodi'r dull mwyaf priodol o gasglu tystiolaeth gan dystion, ond, yn gyffredinol, po fwyaf difrifol yw'r toriad sydd dan sylw yn yr ymchwiliad, po fwyaf buddiol fydd cyfweliadau wyneb-yn-wyneb neu gyfweliadau dros y ffôn ynghyd â chael datganiadau ysgrifenedig ffurfiol.

3.4. Yn ystod ymchwiliad, efallai y daw enghreifftiau eraill o dorri'r Cod i'r amlwg sydd naill ai'n ymwneud â'r aelod sydd dan sylw yn yr ymchwiliad neu ag aelod arall. Pan ddigwydd hyn, bydd yr ymchwiliwr yn paratoi brîff ysgrifenedig ar gyfer y Rheolwr Ymchwiliadau a bydd yntau'n cyfeirio'r ffeil at sylw'r Cyfarwyddwr Ymchwiliadau am benderfyniad. Gall y Cyfarwyddwr Ymchwiliadau benderfynu pa gamau i'w cymryd neu gyfeirio'r mater at yr Ombwdsmon am benderfyniad. Os bwriedir ehangu cwmpas yr ymchwiliad, dylid cymryd y camau a nodwyd ym mharagraff 3.2. Fodd bynnag, os mai rhyw aelod arall yw testun yr ymchwiliad a ymestynnwyd, dylid agor cofnod a ffeil newydd cyn hysbysu'r aelod dan sylw, y Swyddog Monitro a, lle bo hynny'n briodol, Clerc y Cyngor Cymuned (gweler paragraff 3.2).

3.5. Ar ôl casglu'r dystiolaeth i gyd, bydd yr ymchwiliwr yn adolygu'r wybodaeth er mwyn penderfynu a yw'r dystiolaeth yn ategu achos o dorri'r Cod.

Os felly, bydd y dystiolaeth a gasglwyd yn cael ei hanfon at yr aelod gan ei hysbysu y trefnir cyfweliad wyneb-yn-wyneb. Os nad yw'r dystiolaeth yn ategu toriad, bydd yr ymchwiliwr yn ystyried y ffordd fwyaf priodol o ddirwyn yr ymchwiliad i ben. (Gweler paragraff 4.2)

3.6 Ar ôl derbyn sylwadau'r aelod ar y dystiolaeth, bydd yr ymchwiliwr yn ystyried y ffordd fwyaf priodol ymlaen (gweler paragraff 4.2).

Os, ar ôl edrych ar y dystiolaeth, y penderfynir nad yw'n briodol cymryd camau pellach, bydd yr ymchwiliwr yn ysgrifennu at y Swyddog Monitro perthnasol i ddweud nad yw'r Ombwdsmon yn bwriadu cymryd unrhyw gamau pellach. Gofynnir i'r Swyddog Monitro gadarnhau a yw o'r farn bod ymchwiliad lleol pellach yn briodol (gan roi deg diwrnod gwaith i ymateb). Os na dderbynnir ateb gan y Swyddog Monitro yn y cyfnod hwnnw caiff y ffeil ei chau. Os bydd y Swyddog Monitro yn gofyn am fwy o amser i ymateb, yna gall yr ymchwiliwr gytuno i hyn, cyn belled nad yw unrhyw estyniad yn cael effaith andwyol ar hyd yr ymchwiliad sy'n mynd rhagddo. Anfonir copi o'r llythyr at yr achwynydd ac at yr aelod sy'n destun y gŵyn.[7]

[7] Dylid hysbysu'r ddau barti na fyddai'n briodol cysylltu â'r Swyddog Monitro ynghylch y mater ar y cam hwn.

Os bydd y Swyddog Monitro yn cytuno na fyddai ymchwiliad pellach yn briodol, cyhoeddir llythyr adroddiad (cam 4 – gweler paragraff 4.2) yn nodi na fydd unrhyw weithredu pellach.

Os bydd y Swyddog Monitro yn nodi bod ymchwiliad pellach ar raddfa leol yn briodol, byddwn yn cau'r ymchwiliad ar Gam 3 ac yn cyfeirio'r mater yn ffurfiol at y Swyddog Monitro dan adran 70(4) Deddf Llywodraeth Leol 2000.[8]

Yn ystod yr ymchwiliad, efallai y daw i'r amlwg ei bod yn briodol i roi'r gorau i ymchwiliad am resymau eraill (e.e. oherwydd bod gan dyst allweddol neu'r aelod a gyhuddir salwch difrifol). Rhaid i benderfyniad i roi'r gorau i ymchwiliad am unrhyw reswm gael sêl bendith y DOI.

## 4. Dirwyn yr ymchwiliad i ben

4.1. Gellir dirwyn ymchwiliad i ben ar sail un o bedwar canfyddiad:-

(a) Nid oes unrhyw dystiolaeth bod y Cod wedi'i dorri;
(b) Nid oes angen cymryd unrhyw gamau yng nghyswllt y materion yr ymchwiliwyd iddynt;
(c) Bod yr adroddiad ar yr ymchwiliad yn cael ei anfon ymlaen at sylw'r Swyddog Monitro er ystyriaeth gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor; neu
(d) Bod yr adroddiad ar yr ymchwiliad yn cael ei gyfeirio at sylw Llywydd Panel Dyfarnu Cymru (APW) ar gyfer penderfyniad gan dribiwnlys a gaiff ei sefydlu ganddo ef.

4.2. Bydd y canfyddiadau yn cael eu cyfleu yn unol â'r tabl a ganlyn:-

| Canfyddiad | Llythyr | Adroddiad | Drafft | Gwneuthurwr Penderfyniad |
|---|---|---|---|---|
| Dim tystiolaeth o dorri'r cod | Oes | Oes | Nac oes | Ombwdsmon/DOI |
| Dim gweithredu pellach | Oes | Oes | Nac oes | Ombwdsmon/DOI |
| Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | Nac oes | Oes | Oes | Ombwdsmon |
| Cyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru | Nac oes | Oes | Oes | Ombwdsmon |

[8] Mae Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaeth Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001/2281 yn nodi sut y dylai Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau ymdrin â'r mater.

Bydd llythyr adroddiad yn dilyn y templedi ar Workpro. Ar ôl i'r adroddiad drafft gael ei ystyried gan yr Ombwdsmon (neu, yn ei absenoldeb, y DOI) caiff ei anfon at yr aelod am sylwadau cyn ei lunio'n derfynol.

Os yw llythyr yn briodol, dylai egluro'r rhesymau dros y penderfyniad yn llawn. Os gwneir canfyddiad dan (a) neu (b), dylid anfon copïau o'r adroddiad/llythyr terfynol at:-

(i)Yr Achwynydd;
(a)(ii)Yr Aelod;
(b)(iii)Y Swyddog Monitro;
(c)(iv)Clerc y Cyngor Cymuned (os yn briodol).

Os gwneir canfyddiad dan (c) neu (d), dylid anfon copïau o'r adroddiad terfynol at:-

a) Yr Aelod
b) Y Swyddog Monitro

Dylid hysbysu'r achwynydd a Chlerc y Cyngor Cymuned (os yn berthnasol) o ganlyniad ymchwiliad yr Ombwdsmon gan ddefnyddio'r llythyr templed perthnasol. Dylai pob llythyr adroddiad/adroddiad gynnwys crynodeb o'r gŵyn a chanfyddiadau'r Ombwdsmon fel dogfen ar ei phen ei hun. Pan gaiff canfyddiad dan (c) neu (d) ei wneud rhaid i'r ymchwiliwr sicrhau bod Workpro wedi'i ddiweddaru i gofnodi penderfyniad canlyniad y gwrandawiad. Hefyd, rhaid diweddaru fersiwn o'r grynodeb, gan gynnwys paratoi ac arbed canlyniad y gwrandawiad yn Workpro. Mewn achosion lle bydd apêl yn erbyn canlyniad y gwrandawiad wedi'i wneud, bydd rhaid i'r ymchwiliwr gofnodi hyn yn Workpro.

## 5. Herio penderfyniadau

5.1. Ceir achlysuron pan fydd achwynydd yn dymuno herio penderfyniad i beidio ag ymchwilio. Bydd yr ymchwilydd yn sicrhau y caiff unrhyw heriau eu cofnodi yn Workpro. Caiff yr her ei chyfeirio at y Rheolwr Adolygu a fydd yn penderfynu beth yw'r ffordd orau i ymateb drwy un ai:-

(a)Adolygu ac ymateb yn bersonol;
(b)Cyfeirio'r mater at yr ymchwiliwr a oedd wedi delio â'r mater er mwyn iddo lunio ymateb iddo ei ystyried;
(c)Comisiynu adolygiad ac ymateb gan Uwch Swyddog Ymchwilio gwahanol neu Reolwr Ymchwiliadau arall;
(d)Cyfeirio'r mater at sylw'r DOI;
(e)Cyfeirio'r mater at sylw'r Ombwdsmon;
(f) Cyfeirio'r mater at sylw Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol yr Ombwdsmon (cwynion am aelodau o'n staff).

5.2. Fel arfer, ni ellir ystyried heriau i ganfyddiad (c) neu (d) gan fod yr Ombwdsmon yn “functus officio” sy’n ei atal rhag ailystyried adroddiad. Fodd bynnag, os cyflwynir tystiolaeth newydd o bwys, sydd gyfystyr â chŵyn newydd, neu os oedd y canfyddiad yn amlwg yn wrthnysig, yna efallai y bydd yn ailystyried y mater. Mewn achosion o’r fath, dylid cyfeirio’r her at sylw’r Rheolwr Adolygu yn y lle cyntaf.

## 6. Cyhoeddi adroddiadau

6.1 Ni chaiff penderfyniadau i beidio ag ymchwilio eu cyhoeddi fel arfer. Fodd bynnag, bydd crynodebau o achosion lle ceir canfyddiad (a), (b), (c) neu (d) ar gael yn Llyfr Achosion y Cod Ymddygiad. Pan fydd canfyddiad (c) neu (d) wedi’i wneud a’r mater wedi cael ei gyfeirio at bwyllgor safonau neu ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys, byddwn yn cyfeirio ceisiadau am wybodaeth at y Swyddog Monitro perthnasol neu at Gofrestrydd y Panel Dyfarnu tra bo’r gwrandawiad yn aros. Byddwn yn cyhoeddi crynodebau o’r fath achosion yn y Llyfr Achosion ar ôl i’r gwrandawiad ddirwyn i ben.

| | |
|---|---|
| Perchennog y Polisi | CMRG |
| Polisi ac EIA wedi’u cymeradwyo gan CMRG | 11/03/2013 |
| Dyddiad yr Adolygiad nesaf | Yn parhau |
| I’w gyhoeddi ar: | Mewnrwyd Ie<br><br>Gwefan PSOW Ie |